**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/06840/19

Janet Finch-Saunders AC
Aelod Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales

15 Tachwedd 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Hydref 2019 at Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, ynglŷn â thoiledau 'Mannau Newid' (Changing Places). Rwy'n ymateb am fod Rheoliadau Adeiladu a Chynllunio yn fy mhortffolio i.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei ategu gan ganllawiau sy'n annog y rhai sy'n ceisio caniatâd i godi adeiladau masnachol cyhoeddus a newydd i gynnwys cyfleuster toiled Mannau Newid hygyrch yn eu cynlluniau, yn ogystal â thoiledau hygyrch safonol.

Mewn rhai adeiladau mae'r Rheoliadau Adeiladu eisoes yn annog datblygwyr i ddarparu toiled mawr neillryw sy'n cynnwys bwrdd newid ar gyfer oedolion. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn ystyried sut y gellid atgyfnerthu'r ddarpariaeth hon i gynyddu nifer y toiledau Mannau Newid mewn adeiladau cyhoeddus mawr.

Mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys:

- Gwella'r canllawiau yn Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu (Mynediad at Adeiladau a'r Defnydd ohonynt);
- Sicrhau bod rhagor o doiledau Mannau Newid yn cael eu darparu drwy'r broses gynllunio, lle mae Strategaeth Toiledau awdurdod lleol yn dangos bod angen lleol;

Yn ogystal, rydym yn ystyried ei gwneud yn ofynnol darparu toiledau Mannau Newid mewn rhai prosiectau sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dim ond mewn rhai amgylchiadau lle mae gwaith yn cael ei wneud y mae'r Rheoliadau Adeiladu'n berthnasol. Mae angen i unrhyw newid arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu gael ei ategu gan gamau gweithredu eraill sydd â'r nod o gynyddu nifer y toiledau Mannau Newid sy'n cael eu darparu.

Pan fyddaf wedi derbyn eu cyngor, byddaf yn gallu ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r canllawiau yn y Rheoliadau Adeiladu. Bydd unrhyw newidiadau'n destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government